# CHWARAE TEG

# CYNLLUN STRATEGOL

# 2002 i 2012

## CYFLWYNIAD

Cefndir

Sefydlwyd Chwarae Teg ym 1992 gan gonsortiwm o asiantaethau sector cyhoeddus i gefnogi, datblygu ac ehangu rôl menywod yn economi Cymru. Cydnabyddir bellach mai Chwarae Teg yw'r prif fudiad sy'n gweithio er budd datblygiad economaidd menywod yng Nghymru. Hefyd mae ganddo enw da ledled y DU ac Ewrop am ei weithgareddau a'i nodau.

Nodir yng nghyfansoddiad Chwarae Teg ei fod yn fudiad di-elw. Mae Chwarae Teg hefyd yn elusen gofrestredig.

Mae Chwarae Teg yn gweithio i ddatblygu ei nodau a'i amcanion drwy weithio mewn partneriaeth gydag amrywiol fudiadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

## Ymddiriedolaeth Elusennol Chwarae Teg

Nodau ac Amcanion

Lluniwyd yr ymddiriedolaeth elusennol gan ddilyn y nodau a'r amcanion canlynol:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal yn y gweithle trwy ddarparu addysg a hyfforddiant a chyfleusterau eraill fel bod cydraddoldeb a chyfle yn y gweithle.

- Cynnal gwaith ymchwil i gyfle cyfartal a chyhoeddi'r canlyniadau buddiol

- Lliniaru diweithdra

## TROSOLWG STRATEGOL

## GWELEDIGAETH STRATEGOL

***Caiff menywod yr un mynediad, gweithgareddau a haeddiant yn economi Cymru, a fydd yn rhoi annibyniaeth economaidd i fenywod. Bydd cyfleoedd cyfartal a chydbwyso bywyd a gwaith yn rhan annatod o economi Cymru, gan darddu o bolisïau cenedlaethol o safon ryngwladol. Ochr yn ochr â hynny, byddant yn datblygu, yn cryfhau ac yn cynnal economi Cymru.***

Hynny yw, ymhen amser, sydd i'w bennu eto, ni fydd angen y gwaith ymarferol a strategol y mae Chwarae Teg yn ei gyflawni ar hyn o bryd.

Mae ein gweledigaeth strategol yn gydnaws â dyhead Cynulliad Cenedlaethol Cymru am economi llawer mwy ffyniannus i Gymru, economi sy'n gynaliadwy, cynhwysol ac wedi'i lledaenu'n fwy cyfartal.

### Cyfle Cyfartal

Cyfle cyfartal yw conglfaen ein gweledigaeth. Ar hyn o bryd mae Chwarae Teg yn arbenigo ym maes cyfleoedd cyfartal ar sail rhyw oherwydd y materion a'r cyfleoedd parhaus yn y maes hwn.

### Dull Chwarae Teg

Mae Chwarae Teg yn bodoli i hyrwyddo cyfle cyfartal a datblygiad economaidd menywod ledled Cymru. Mae datblygiad economaidd yn golygu mwy o weithgarwch ac annibyniaeth economaidd. Mae Chwarae Teg wedi nodi dulliau penodol o weithio a fydd yn sail i'w weledigaeth strategol ac yn gydnaws â hi.

### Bydd Chwarae Teg yn:

- Nodi, sicrhau a chyflawni'r prosiectau mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol

- Cyflogwr arferion gorau ac yn helpu i ddatblygu enghreifftiau eraill o arferion da

- Gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill sy'n ein helpu ni i wireddu gweledigaeth ac amcanion strategol

- Cyfathrebu'n helaeth gyda'r cyhoedd, y llywodraeth, cyflogwyr ac eraill i dynnu sylw at faterion cyfoes sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd menywod.

Er mwyn gwireddu ei weledigæth strategol, mae Chwarae Teg wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol, ynghyd â'r themâu trawsbynciol sef cyfle cyfartal a pholisïau.

Bydd strategaethau ymarferol strategol ym meysydd marchnata a chyfathrebu, rheolaeth ariannol, adnoddau'r gweithlu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn sail i'r rhain.

Yn ogystal bydd arferion da amgylcheddol, glynu wrth safonau uchel ym maes rheoli iechyd a diogelwch a datblygu cynaliadwy yn goleuo ac yn dylanwadu ar ein gweithgareddau.

## CYNLLUN STRATEGOL DENG MLYNEDD CHWARAE TEG

### Cyflwyniad

Mae Chwarae Teg wedi datblygu ei gynllun strategol newydd ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd. Gwnaed hyn o ganlyniad i'w lwyddiant i ddatblygu ei hun fel y mudiad arweiniol ar gyfer datblygiad economaidd menywod yng Nghymru, yn ogystal â bod yn ddylanwad cydnabyddedig yn y meysydd hyn yn y DU ac Ewrop.

Rhaid i Chwarae Teg, felly, ddatblygu a chyflwyno ei allu i feddwl a gweithredu dros gyfnod strategol mwy sylweddol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'i sgiliau, arbenigedd a dylanwad a gallu nodi a manteisio ar gyfleoedd yn gynt.

### Dadansoddiadau Strategol

### Dadansoddiad Allanol

Ers sefydlu Chwarae Teg, mae'r mudiad a'r sefyllfa wleidyddol ac economaidd yng Nghymru wedi newid yn sylweddol.

Yn benodol, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd wrthi'n datblygu strategaethau tymor hir i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o faterion a sialensiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Pwysig hefyd yw'r newid dramatig yn economi Cymru, a ddaeth yn sgîl colli gwaith gweithgynhyrchu sylweddol a datblygiad arafach diwydiannau yn ei le, yn enwedig yn y sector Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) atyniadol.

Mae datblygiad cynyddol technolegau gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnydd yng Nghymru a chan gystadleuwyr yn erbyn Cymru, yn golygu bod rhaid i Gymru o leiaf ddal ei thir gyda mabwysiadu'r dechnoleg newydd.

Gall diwylliant lle ceir lefelau uwch o hyfforddiant a dysgu a diwylliant lle ceir dysgu gydol oes fod yn sail i'r ddau faes hyn.

Mae pryder ynghylch yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy hefyd yn themâu cyfredol a thymor hir y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth ddwys iddynt. Gall hyn greu cyfleoedd ar gyfer mentrau newydd yn y technolegau gwyrdd.

Lles cymdeithasol y Cymry yw pryder pennaf y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r pryder hwn ynghyd â'i gweithgareddau yn cynnwys meysydd mor eang â iechyd a thrafnidiaeth, yn ogystal â rhaglenni adfywio, rhaglenni gweithgarwch gwledig a'r rhaglen datblygiad gofodol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dwyn ynghyd y themâu a'r tueddiadau allanol hyn mewn cyfres o ddogfennau integredig a chydberthynol a fydd yn ffurfio'r agenda strategol genedlaethol ar gyfer y deng mlynedd nesaf o leiaf. Rhaid i Chwarae Teg felly ddeall y meysydd a'r symbyliadau strategol hyn yn llawn a chysoni ei raglenni a'i gamau strategol at wireddu'r weledigaeth gyda'r rhaglenni cenedlaethol sylfaenol. Rhaid i Chwarae Teg hefyd fod yn ymwybodol o dueddiadau allanol, yn enwedig yn y DU a ledled Ewrop gan mai dyma fydd terfynau ymarferol ein gofod gweithio dros y deng mlynedd nesaf.

Y brif ddogfen gyfeirio i Chwarae Teg yw 'Cymru'n Ennill' – Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y cynllun strategol deng mlynedd hwn yw'r fframwaith ymarferol i weddnewid economi Cymru gyda chydraddoldeb, cynhwysiant a datblygu cynaliadwy yn sail iddo. Mae'n fframwaith manwl gyda phrif raglenni ar gyfer cyflogaeth a mentrau – i gynyddu nifer y swyddi da lleol a'r busnesau cynhenid trwy'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth, er enghraifft. Hefyd ar gyfer cynnydd mawr yn sgiliau a gwybodaeth y boblogaeth yng Nghymru i ategu a chefnogi'r cynlluniau cyflogi. Y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth sy'n sail i'r maes hwn. Mae cefnogaeth i fusnesau a gweithgareddau sydd â ffocws mwy pendant

fyth iddynt megis strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol i leihau'r rhwystrau cysylltiedig â gweithwyr/pobl sy'n dychwelyd i weithio hefyd yn berthnasol i weledigaeth strategol ac egwyddorion Chwarae Teg.

## Cymwyseddau Mewnol

Mae gan Chwarae Teg ystod eang o sgiliau a phrofiadau mewnol, gyda nifer o aelodau profiadol o'r staff wedi gweithio ym maes addysg a hyfforddiant, cyfleoedd cyfartal, y sector gwirfoddol a chyhoeddus, wedi cydweithio gyda mudiadau gwleidyddol a gweithgareddau datblygu menywod am dros 20 mlynedd.

Dros y ddwy flynedd flaenorol, mae'r mudiad wedi datblygu ei gymwyseddau mewnol mewn sgiliau rheoli hanfodol gan gynnwys rheolaeth ariannol, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, rheoli prosiectau, cynllunio strategol, strategaeth a rheoli TGCh ac Adnoddau'r Gweithlu. Mae Chwarae Teg yn cydnabod bod rhaid iddo barhau i ddatblygu a chynnal y sgiliau hyn a bydd rhagor o welliannau i'w system werthuso a gwobrwyo perfformiad yn sail i'w nod o gadw staff.

## Strwythur Drefniadaethol

Mae gan Chwarae Teg strwythur rhanbarthol sy'n seiliedig ar brosiectau, gyda matrics o gyfrifoldebau ar draws y prosiectau craidd.

Dangosir y siart trefniadaethol cyfredol yn atodiad xx.

Lleolir swyddfa'r gorfforaeth yng Nghaerdydd. Ceir pedair swyddfa ranbarthol, yn ne-ddwyrain, de-orllewin, canolbarth a Gogledd Cymru.

Rheolir y prosiectau craidd gan gyfuniad o reolwyr rhanbarthol, prif swyddogion gweithredol a rheolwyr prosiect penodol, yn unol â'r sgiliau a'r profiadau perthnasol.

Ar hyn o bryd ceir unedau datblygu Menter ychwanegol (pedair a fydd yn cynyddu i saith) ym mhob cwr o Gymru i ddarparu cefnogaeth gadarnhaol i fenywod a rhieni unigol o ran dechrau busnes. Caiff y rhain eu hariannu trwy brosiectau.

## Sefyllfa Gystadleuol

Oherwydd hanes unigryw Chwarae Teg, ei safle fel y mudiad arweiniol ar gyfer datblygiad economaidd menywod yng Nghymru a natur ei waith,

nid yw dadansoddiad traddodiadol o gystadleuaeth fasnachol yn addas yma.

Yn hytrach, y thema yw partneriaethau a chynghreiriau gyda phob, neu unrhyw fudiad, sy'n gweithio at greu cyfleoedd cyfartal a datblygiad economaidd Cymru a menywod yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad, felly, yn canolbwyntio ar y mudiadau ledled Cymru y gall eu gwaith effeithio ar allu Chwarae Teg i wireddu'i amcanion strategol.

O'r adolygiad hwn, mae Chwarae Teg wedi rhannu'r mudiadau y mae ganddo gysylltiadau gyda hwy ac y mae'n ymwybodol ohonynt, yn grwpiau. Bydd y math o grwp yn penderfynu ar y strategaeth generig ar gyfer gweithio'n agos gyda'r mudiadau, ac adolygir pwysigrwydd cymharol y mudiadau hyn i Chwarae Teg gyda'r cynllun strategol.

Dyma'r prif grwpiau: Partneriaid Strategol; Cynghreiriau Strategol; Cefnogwyr Craidd; Partneriaid; Cefnogwyr; Yn weithgar, ond fawr ddim cysylltiad; Cysylltiadau i'w datblygu.

Rhestrwyd y prif fudiadau ym mhob grwp, yn ôl ai perthynas polisi neu berthynas gorfforaethol ydyw yn gyffredinol, neu a ydyw yn fwy addas ar gyfer un o'n blaenoriaethau strategol. Nodir tabl cryno yn atodiad 1.
Dogfen weithio yw hon sy'n cynrychioli'r sefyllfa bresennol yn unig. Bydd rhai mudiadau yn ymddangos mewn mwy nag un grwp.

## Rheoli Risg

Yn y flwyddyn weithredol bresennol mae Chwarae Teg wedi ymgymryd â phroses adolygu rheoli risg wedi'i hwyluso gan KPMG. Mae angen nodi'n ffurfiol y lefel briodol o reoli risg ar gyfer Chwarae Teg a chaiff polisi a phroses weithredol i archwilio risgiau corfforaethol a risgiau prosiectau eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod gweithredol nesaf (Ebrill 2002/Mawrth2003).

## GWELEDIGAETH STRATEGOL

### Ein gweledigaeth:

***Caiff menywod yr un mynediad, gweithgareddau a haeddiant yn economi Cymru, a fydd yn rhoi annibyniaeth economaidd i fenywod. Bydd cyfleoedd cyfartal a chydbwyso bywyd a gwaith yn***

***rhan annatod o economi Cymru, gan darddu o bolisïau cenedlaethol o safon ryngwladol. Ochr yn ochr â hynny, byddant yn datblygu, yn cryfhau ac yn cynnal economi Cymru.***

Hynny yw, ymhen amser, sydd i'w bennu eto, ni fydd angen y gwaith ymarferol a strategol y mae Chwarae Teg ei gyflawni ar hyn o bryd.

Mae ein gweledigaeth strategol yn gydnaws â dyhead Cynulliad Cenedlaethol Cymru am economi llawer mwy ffyniannus i Gymru, economi sy'n gynaliadwy, cynhwysol ac wedi'i lledaenu'n fwy cyfartal.

**Cyfle Cyfartal**

Cyfle cyfartal yw conglfaen ein gweledigaeth. Ar hyn o bryd mae Chwarae Teg yn arbenigo ym maes cyfleoedd cyfartal ar sail rhyw oherwydd y materion a'r cyfleoedd parhaus yn y maes hwn.

**Er mwyn gwireddu ei weledigaeth strategol, mae Chwarae Teg wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol, ynghyd â'r thema trawsbynciol, cyfle cyfartal.**

**BLAENORIAETHAU STRATEGOL**

**MATERION A RHWYSTRAU**

Er mwyn goleuo'r strwythur strategol yng gweithgareddau Chwarae Teg am y cyfnod cynllunio dros y deng mlynedd nesaf, nodwyd cyfres o faterion a rhwystrau sylfaenol sy'n wynebu menywod sy'n gweithio, menywod sydd ar ddechrau gweithio neu dderbyn hyfforddiant a menywod sydd ar ddechrau busnes.

Nodwyd y pryderon sylfaenol hyn ar sail profiadau helaeth Chwarae Teg a'i waith partneriaeth gyda mudiadau eraill sydd â diddordeb – ym meysydd cyfle cyfartal, gwaith ac addysg. Yn ogystal, mae gwaith ymchwil manwl a gomisiynwyd gan Chwarae Teg ac a ailddefnyddiwyd yn ddiweddar wedi helpu i ddatblygu'r rhestr. Nodwyd nifer o'r materion hyn hefyd gan fudiadau dylanwadol sydd gyda budd, megis y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Undebau Llafur. Mewn gwirionedd, ffurfiodd nifer o'r themâu hyn ran o waith cychwynnol a phresennol Chwarae Teg.

Y prif faterion sy'n destun pryder i Chwarae Teg yw:

- **Anghydraddoldeb cyflog (y ‘bwlch cyflog’)**

- **Diffyg mynediad (cyfartal) i gyfleoedd**

- **Diffyg trefniadau gweithio hyblyg yn y gwaith.**

- **Rhagfarn yn erbyn menywod sydd â theuluoedd neu fenywod priod ifanc**

- **Diffyg gofal plant o safon dda y gellir ei fforddio, sydd o fewn cyrraedd rhwydd ac sydd â chyfleusterau y tu allan i oriau swyddfa arferol.**

- **Diffyg gofal i’r henoed yn gyffredinol**

- **Diffyg hyder ymysg menywod sy’n dychwelyd i’r gwaith**

- **Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd hyfforddiant ac ailfeithrin sgiliau, a diffyg cyfleoedd digon hyblyg**

Mae’r holl eitemau hyn yn rhwystro menywod rhag cymryd rhan lawn yng ngweithlu Cymru ac mewn gweithgareddau busnes ac economaidd yn gyffredinol.

Mae hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar y gweithlu sydd ar gael yng Nghymru, ac yn cynyddu cyfran y bobl sy’n anweithgar yn economaidd ac sy’n dibynnu ar fudd-daliadau.

## Diffinio’r Blaenoriaethau Strategol

Datblygwyd blaenoriaethau strategol Chwarae Teg ar sail ein profiadau sylweddol ym meysydd cyfle cyfartal a datblygiad economaidd menywod ynghyd â’n proses monitro ac adolygu materion a rhwystrau parhaus yn y meysydd hyn. Rydym hefyd wedi rhoi sylw i bolisïau a symbyliadau cymdeithasol ac economaidd beirniadol ar raddfa genedlaethol, y DU ac Ewrop. Dylanwadir, yn arbennig, ar ein blaenoriaethau strategol gan ‘Cymru'n Ennill’. Yn ogystal rydym wedi datblygu dadansoddiadau ar gyfer dylanwadau allanol, ein cymwyseddau mewnol a’r amgylchedd cystadleuol. Mae’r dadansoddiadau hyn wedi helpu i nodi cyfleoedd yn ein meysydd pryder pennaf ynghyd â symbyliadau a themâu gwleidyddol ac economaidd yn bennaf.

**Mae ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol yn y meysydd canlynol**

- **cyflogaeth**
- **menter**
- **hyfforddiant ac addysg**
- **polisi cyhoeddus**

Mae'r blaenoriaethau hyn yn sail i'n gweledigaeth strategol.

Mae cyfle cyfartal yn egwyddor sy'n gweu trwy ein holl flaenoriaethau. Rydym yn ymgyrraedd tuag at gyflawni cyfle cyfartal o fewn a thrwy bob un o'r blaenoriaethau strategol.

Mae ein pryderon pennaf yn dylanwadu ar ein gweithgareddau o fewn ac ar draws ein blaenoriaethau strategol a'n gweithrediadau rhanbarthol sydd â ffocws pendant iddynt.

## Cyflogaeth

Cyflogaeth yw'r prif lwybr at weithgarwch economaidd ac annibyniaeth i bobl. Yn hanesyddol mae menywod wedi chwarae rôl llai gweithgar na dynion. Mae menywod yn dal i wynebu rhwystrau real ac amlwg i gyflogaeth a datblygu gyrfaoedd hir a llwyddiannus. Cydnabu Chwarae Teg bod rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn o sawl cyfeiriad. Mae hyn yn golygu ar lefel polisi, gyda mudiadau ac oddi fewn iddynt, trwy godi ymwybyddiaeth ac addysgu ynghylch manteisio mwy ar y gweithlu menywod yn ogystal â manteision ehangach holl arferion gweithio hyblyg da; gyda gwasanaethau cefnogi (yn gyffredinol, cefnogaeth ddomestig) a fydd yn rhyddhau menywod i gymryd rhan lawnach; a chyda menywod eu hunain i helpu i ryddhau potensial a hybu mynediad at waith.

## Menter

Cydnabuwyd ar lefel Ewropeaidd, y DU a chenedlaethol bod angen creu llwythi o ddiwydiannau a busnesau newydd, er mwyn adfywio economïau, lle mae diwydiannau traddodiadol wedi diflannu'n sylweddol, a sicrhau cefnogaeth barhaus i ddilyn hynny. Mae Chwarae Teg yn chwaraewr allweddol yn y sector BBaCh, a gwelwyd, o ganlyniad, ei gais yn 2000 i redeg ei brosiect datblygu menter cyntaf a phrosiectau dilynol.

## Addysg a Hyfforddiant

Mae nodau Chwarae Teg ym mlaenoriaeth strategol addysg a hyfforddiant yn cynnwys dwy thema. Yn gyntaf, dyma fater o gyfle

cyfartal ym maes addysg ac ar ei gyfer. Rhaid mynd i'r afael â hyn yn strategol gydag ystod eang o bartner fudiadau ac, eto, gyda'r menywod yn uniongyrchol. Yr ail fater yw cyfrifoldeb Chwarae Teg i godi ymwybyddiaeth ynghylch y prif faterion a rhwystrau ac i addysgu pobl a chyrff ynghylch yr angen a'r posibilrwydd o wneud pethau mewn ffordd wahanol a gwell er mwyn creu gweithlu a chymdeithas mwy cyfartal, cynhwysol ac amrywiol.

**Polisi**

Cydnabu Chwarae Teg mai dim ond trwy weithio'n strategol gyda llunwyr a hyrwyddwyr polisïau y ceir newid yn y tymor hir. Mae'n hanfodol felly bod Chwarae Teg yn ystyried yn frwd y polisïau ar lefel genedlaethol, y DU ac Ewrop sy'n berthnasol i bob un o'r blaenoriaethau strategol ac yn nodi gyda phwy, ble a phryd i weithio'n agos, cynghori a helpu i'w rhoi ar waith.

**AMCANION STRATEGOL**

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth strategol, mae Chwarae Teg wedi nodi cyfres o amcanion strategol a fydd yn ategu blaenoriaethau ac egwyddorion strategol ein gweledigaeth. Yr amcanion hyn yw ein disgrifiad ni o'n bwriad strategol. Mae'r amcanion hyn yn disgrifio'r mathau o weithgareddau a phrosiectau y byddwn ni'n ymwneud â hwy a chyda pha nodau. Disgwylir i'r amcanion hyn barhau'n ddilys yn y cyfnod cynllunio o ddeng mlynedd.

Fodd bynnag, ni fwriedir iddynt gyfyngu ar weithgareddau a chyfleoedd Chwarae Teg a byddant yn parhau i gael eu hadolygu'n strategol er mwyn nodi ychwanegiadau a datblygiadau. Er enghraifft, mae'r agenda strategol ynghylch gofal plant a gofal i'r henoed yn debygol o ddatblygu'n sylweddol gan gyfiawnhau ei ddatblygiad fel blaenoriaeth strategol ynddi'i hun o fewn y ffrâm deng mlynedd.

**Er mwyn sicrhau y caiff menywod yr un mynediad, gweithgareddau a haeddiant yn economi Cymru, a fydd yn arwain at annibyniaeth economaidd, mae amcanion strategol Chwarae Teg fel a ganlyn:**

| BLAENORIAETHAU STRATEGOL | AMCANION STRATEGOL |
| --- | --- |
| ***CYFLOGAETH*** | Gwella amodau a chynyddu nifer y menywod sydd mewn gwaith trwy dynnu sylw a gweithio i |

| | |
|---|---|
| | leihau a chael gwared ar anghydraddoldeb a rhwystrau sy'n wynebu menywod mewn gwaith; trwy nodi a hyrwyddo arferion da a chyfleoedd a manteision y gall menywod eu cynnig i gyflogwyr ac economi Cymru wrth iddynt gymryd rhan weithredol yng ngweithlu Cymru. |
| ***MENTER*** | Ehangu'r rôl y mae menywod yn ei chwarae ym maes menter trwy weithio'n strategol ym mhob cwr o Gymru i gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu menywod a hyrwyddo arferion da ym mecanweithiau cefnogi busnesau i gynyddu nifer y menywod sy'n dechrau busnes ac yn aros mewn busnes yng Nghymru. |
| ***ADDYSG A HYFFORDDIANT*** | Hyrwyddo cyfleoedd addysg gydol oes ar gyfer menywod yn y gweithle ac yn y gymuned, trwy weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau strategol a darparwyr penodol yn y sector yng Nghymru i nodi, lleihau a chael gwared ar rwystrau sy'n wynebu menywod, a chreu cyfleoedd hygyrch er mwyn i fenywod fanteisio'n rhwydd a chymryd rhan mewn addysg i ganiatáu iddynt gael gwaith, datblygu gyrfaoedd a lleihau'r prinder sgiliau.<br><br>Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd cyfartal i bawb ym maes addysg a lleihau a chael gwared ar stereoteipio, gwella mynediad cyffredinol at waith, gwella datblygiad gyrfa a lleihau'r prinder sgiliau yn y dyfodol. |
| ***POLISI CYHOEDDUS*** | Goleuo, cefnogi, dylanwadu ar a helpu i weithredu polisi cyhoeddus a luniwyd yng Nghymru, yn y DU ac yn Ewrop i weithredu polisïau o safon ryngwladol sy'n berthnasol i ddatblygiad economaidd menywod, cyfleoedd cyfartal a chydbwyso bywyd a gwaith. |

Bydd strategaethau ymarferol ym meysydd marchnata a chyfathrebu, rheolaeth ariannol, adnoddau'r gweithlu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn sail i'r rhain.

Yn ogystal bydd arferion da amgylcheddol, glynu wrth safonau uchel ym maes rheoli iechyd a diogelwch a datblygu cynaliadwy yn goleuo ac yn dylanwadu ar ein gweithgareddau.

**CYNLLUN STRATEGOL**

Er mwyn cyflawni cynnydd sylweddol yn yr amcanion strategol a nodwyd, bydd yn rhaid i Chwarae Teg sefydlu'i hun fel un o'r asiantaethau arweiniol ym mhob un o'r blaenoriaethau strategol presennol a newydd. Mae hyn yn gofyn bod Chwarae Teg yn datblygu'n strategol yn barhaus er mwyn elwa ar ei sefyllfa bresennol. Bydd hyn hefyd yn gofyn am gefnogaeth y llywodraeth genedlaethol, h.y. Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ffynonellau sefydlog eraill o incwm craidd diamod. Bydd yr incwm craidd diamod cynyddol hwn yn hanfodol i ategu'r mudiad craidd a chefnogi gwaith strategol er mwyn galluogi Chwarae Teg i ddiwallu ei amcanion strategol. Yn ogystal bydd rhaid nodi ffynonellau incwm newydd a/neu eu creu er mwyn bod yn fwy hunangynhaliol.

Drafftiwyd y cynllun strategol deng mlynedd i gynnwys y prif themâu strategol gan ddechrau gyda'n gweithgareddau a'n cynlluniau presennol. Ar hyn o bryd mae'r cynllun strategol yn amlinelliad o'r gweithgareddau a'r datblygiad strategol allweddol y mae Chwarae Teg yn bwriadu eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf a fydd yn arwain at fod mewn sefyllfa ddelfrydol yn y ddegfed flwyddyn. Gyda'r newidiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd yn economi Cymru, y DU ac Ewrop ynghyd ag ar lefel wleidyddol, mae'n anodd dros ben rhagweld y prif dueddiadau ac i ba raddau y bydd ein prif bryderon yn llai. Felly, fe'i hystyrir yn briodol i ni gynnal ein targed ymestynnol ar gyfer y deng mlynedd, gyda thargedau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ynghyd ag adolygiadau strategol arfaethedig i bwyso a mesur y datblygiadau newydd. Cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd, bydd y cyfnod nesaf o bum mlynedd wedi cael ei ddatblygu.

Yn yr un modd, amlinellwyd y strategaethau ymarferol dros y pum mlynedd nesaf, wedi'u datblygu o'r cynllun manwl ar gyfer ein blwyddyn weithredol nesaf.

Ar y tudalennau nesaf cyflwynir amlinelliad o’n dogfennau strategaeth deng mlynedd ar gyfer ein themâu strategol a’n swyddogaethau cefnogi. Yn dilyn y rhain bydd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y themâu strategol o fis Ebrill 2002 hyd at fis Mawrth 2004 a’r cynllun amlinellol ar gyfer gweithredu ymarferol o fis Ebrill 2002 hyd at fis Mawrth 2003.

## TROSOLWG STRATEGOL DENG MLYNEDD CHWARAE TEG – 2002 I 2012

| BLAENORIAETH STRATEGOL | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd Cyfartal** | Prosiect Cydraddoldeb Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh)<br><br>Prif ffrydio gwaith menter | Adolygu arferion gweithio hyblyg – enghreifftiau o arferion da, datblygu gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr a llunwyr polisïau<br><br>Adolygu themâu a gweithgareddau cenedlaethol ehangach ar gyfer cyfleoedd cyfartal er mwyn nodi cyfleoedd Chwarae Teg yn y dyfodol | Cyflawni gwaith dilynol prosiect cydraddoldeb BBaCh<br><br>Datblygu mwy o raglenni a phroffiliau cyfleoedd cyfartal prif ffrwd (mewn partneriaeth â mudiadau allweddol e.e. EOC, DW) | Prosiect cydraddoldeb BBaCh – 2 (estyn at fudiadau mwy)<br><br>Parhau i ddatblygu strategaeth cyfleoedd cyfartal prif ffrwd a gweithgareddau dethol | | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel mudiad datblygu cyfleoedd cyfartal ehangach ledled Cymru |
| **Cyflogaeth** | Prosiect Cydraddoldeb BBaCh<br><br>Contract Cydbwyso Bywyd a Gwaith (CBaG)<br><br>Datblygu cynllun | Rheoli'r Gronfa Her<br><br>Cyflwyno rhaglen strategol ar gyfer CBaG<br><br>Adolygu cyfleoedd ar ôl y | Rheoli'r Gronfa Her<br><br>Cyflwyno rhaglen strategol ar gyfer CBaG – Sefydlu partneriaethau rhanbarthol CBaG | | | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel cynghorydd arbenigol ym maes arferion gweithio hyblyg, cydbwyso bywyd a gwaith a'r un mynediad i bawb |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | strategol ar gyfer Cydbwyso Bywyd a Gwaith (CBaG)<br><br>Rheoli'r Gronfa Her | prosiect cydraddoldeb BBaCh er mwyn datblygu portffolio gwasanaeth Chwarae Teg | Nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau ym maes cyflwyno arferion gweithio hyblyg | | | at gyfleoedd |
| **Menter** | Prosiect Menter Menywod Cymru<br><br>Cais ar gyfer yr ail gam<br><br>Rhieni Sengl Potentia | Prosiect Menter Menywod Cymru<br><br>Tendr dilynol<br><br>Rhaglen datblygu rhwydwaith busnes i fenywod<br><br>Rhieni Sengl Potentia<br><br>Cais dilynol (i'w gadarnhau) | Prosiect Menter Menywod Cymru – 2 (cefnogaeth cyn dechrau busnes a mwy o gefnogaeth mentora a rhwydwaith)<br><br>Rhaglen rhwydwaith busnes i fenywod | Prosiect Menter Menywod Cymru - 2<br><br>Gwerthuso'r elfennau y bydd Chwarae Teg yn dymuno eu gwreiddio yn y mudiad ei hun ar ôl i nawdd ERDF leihau. Rhaglen i sicrhau nawdd, archwilio dewisiadau masnacheiddio | Prosiect Menter Menywod Cymru (MMC) - 2<br><br>Gweithgareddau allweddol ar waith ar ôl y prosiect MMC | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel darparwr prif ffrwd cefnogaeth cyn dechrau busnes a chefnogaeth arbenigol barhaus (mewn gweithgareddau prif ffrwd nad ydynt yn gyfredol) |
| **Addysg a Hyfforddiant** | Uned hyfforddi beilot<br><br>Datblygu argymhellion | Sefydlu cam 1 uned hyfforddi gyda chyrsiau craidd<br><br>Sefydlu hyfforddiant e- | Ehangu uned hyfforddi – defnydd masnachol o gyrsiau menter a deunydd prif ffrydio arall | Golwg feirniadol ar lwyddiant a gweithgareddau'r uned. Datblygu strategaeth pum mlynedd | Dechrau gweithredu'r strategaeth | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel darparwr hyfforddiant arbenigol, gan ganolbwyntio ar gynyddu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hyfforddi e-fasnach | fasnach | | | | mynediad at gyfleoedd gwaith, busnes a datblygu a hyfforddiant yn y sefydliad |
| **Polisi** | Gweithgareddau strategol v. materion a rhwystrau sy'n wynebu menywod i gyflogaeth a busnes, datblygiad economaidd menywod, prosiectau yng Nghymru a noddir gan arian o Ewrop | Gweithgareddau strategol v. materion a rhwystrau sy'n wynebu menywod i gyflogaeth a busnes, datblygiad economaidd menywod, prosiectau yng Nghymru a noddir gan arian o Ewrop<br><br>Gweithio i ymestyn dylanwad a chysylltiadau ledled y DU ac Ewrop | Gweithgareddau strategol v. materion a rhwystrau sy'n wynebu menywod i gyflogaeth a busnes, datblygiad economaidd menywod, prosiectau yng Nghymru a noddir gan arian o Ewrop | Adolygu agenda ddylanwadol strategol | Gweithredu agenda ddiwygiedig | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel chwaraewr allweddol Ewropeaidd ym mhob thema ac yn ennill statws byd-eang mewn meysydd allweddol |
| | | | | | | |
| **Datblygu themâu newydd** | Agenda strategol gofal i ddibynyddion (yn | Sefydlu blaenoriaethau strategol newydd | Ymestyn gwasanaethau tanysgrifio i | Rhaglen ymchwil yn dechrau (i uwchraddio'n | Adolygu'r ddarpariaeth o wybodaeth, | Chwarae Teg wedi'i sefydlu fel darparwr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal i ddibynyddion**<br><br>**Darparu Gwybodaeth** | unol â strategaeth Gofal Plant y Cynulliad)<br><br>Chwarae Teg fel darparwr gwybodaeth – cam 1 datblygiad strategol (cychwyn ar y wefan) | ar gyfer gofal i ddibynyddion a darparu gwybodaeth<br><br>Dechrau gweithredu mentrau strategol cynnar, e.e. cysylltiadau a rhestr ddigwyddiadau ar-lein a gwasanaethau tanysgrifio syml ar gyfer cyllidwyr presennol<br><br>Archwilio i ddatblygu rhaglen ymchwil mewn meysydd allweddol a ariennir yn ganolog<br><br>Rhaglen gyhoeddiadau newydd | wybodaeth allweddol<br><br>Datblygu gwasanaethau llyfrgell a chyfeirio<br><br>Datblygu strategaeth rhaglen ymchwil a chaffael cyllid i fod yn sail iddi<br><br>Rhoi rhaglen gyhoeddiadau fwy ar waith | sylweddol y gweithgarwch tameidiog presennol)<br><br>Parhau i weithredu rhaglen gyhoeddiadau fwy | marchnata a chyfathrebu a gwaith ymchwil i sefydlu rhaglen strategol dros y pum mlynedd nesaf | gwybodaeth ar-lein allweddol a datblygwr adroddiadau/gwaith ymchwil sylweddol mewn polisïau allweddol a meysydd ymarferol |
| | | | | | | |